

<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad yr Adroddiad</b>	14 Rhagfyr 2021
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	Cynghorydd Tony Thomas Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau  Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Mark Dixon
<b>Teitl</b>	Ailddatblygu hen Lyfrgell Prestatyn - Dyfarnu Contract

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses a gynhaliwyd yn ystod yr ymarfer caffael, ac yn argymhell dyfarniad contract er mwyn penodi Prif Contractwr i ailddatblygu safle hen Lyfrgell Prestatyn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad gan y Cabinet er mwyn dyfarnu'r contract i Wynne & Sons Limited Construction, ar gyfer ailddatblygu hen lyfrgell Prestatyn.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn dyfarnu Contract i Wynne & Sons Limited Construction yn unol â'r Adroddiad Argymhelliad Dyfarniad Contract yn Atodiad 1.

3.2 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'u hystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ymhellach i benderfyniad y Cabinet ar 21 Medi 2021, mae Cyngor Sir Ddinbych yn dymuno penodi Contractwr i ddymchwel hen Lyfrgell Prestatyn, adeiladu 14 fflat

hygyrch un ystafell wely ar gyfer rhent cymdeithasol gyda mynediad mewn lifft a 2 uned fasnachol llawr gwaelod ar y safle, a darparu gwell mynedfa, parcio a gofod amwynder awyr agored i'w rannu gyda phreswylwyr presennol fflatiau Llys Bodnant.

4.2. Cyhoeddwyd hysbysiad o gontract gwerth oddeutu £3,789,372.87 ar borth caffael GwerthwchiGymru ar 21 Awst 2021 gyda dyddiad cau o 22 Hydref 2021. Yn dilyn sylwadau gan sawl cynigiwr estynnwyd y dyddiad cau i'r 5 Tachwedd 2021.

4.3. Derbyniwyd 5 cais am dendr.

4.4. Yn dilyn ymarfer gwerthuso gan ddefnyddio methodoleg sgorio gyda phwysoliad o 70% ar gyfer y pris a 30% ar gyfer ansawdd, dewiswyd contractwr. Gellir canfod manylion pellach yn Adroddiad Argymhelliad Dyfarniad Contract yn Atodiad 1.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys blaenoriaeth i sicrhau y cefnogir pawb i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion. Mae Thema 2 Strategaeth Tai a Digartrefedd a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2020 yn ymwneud â chreu cyflenwad o gartrefi fforddiadwy, ac mae'n cynnwys camau i hwyluso'r gwaith o adeiladu cartrefi'r Cyngor, a darpariaeth llety sy'n gweddu proffil demograffig hŷn poblogaeth y sir. Bydd y penderfyniad hwn yn cyfrannu at gyflawni Strategaeth Tai a Digartrefedd y Cynllun Corfforaethol gan alluogi gwaith adeiladu cartrefi hygyrch ar gyfer rhent cymdeithasol.

5.2. Bydd y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu tuag at gyflawni'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecoleg a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 23 Chwefror, 2021, trwy adeiladu safle newydd i'r Cyngor a fydd yn gweithredu'n garbon isel gan gynnwys ynni adnewyddadwy a thechnolegau gwres. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy osgoi'r defnydd o hydrocarbonau ar gyfer gwresogi gofod a dŵr yn y datblygiad.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Cyfanswm y gost a gyflwynwyd gan y cynigiwr llwyddiannus Wynne & Sons Limited Construction oedd £3,454,773.11. Mae hyn o fewn y gyllideb ar gyfer y prosiect yng Nghynllun Busnes y Stoc Dai.

6.2. Bydd ailddatblygu'r safle yn galluogi gwaredu eiddo oedd yn wag, sydd wedi bod yn lleoliad ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, o bortffolio corfforaethol y Cyngor.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o effaith ar Les?**

7.1. Mae prif gasgliadau'r aseiad yn nodi y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr holl nodau lles drwy ddarparu cartrefi newydd sy'n addas ar gyfer pobl â nodweddion a ddiogelir mewn lleoliad a fydd yn eu galluogi i fanteisio ar wasanaethau ar droed a bydd yn lleihau'r risg o dlodi tanwydd ymysg preswylwyr o ganlyniad i arbed ynni; bydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi drwy gyfrannu at hyfywedd siopau a gwasanaethau canol tref Prestatyn; bydd yn cynyddu cydlyniant cymunedol ac iechyd drwy wella atyniad yr Ardal Gadwraeth a darparu mynediad hawdd at gyfleusterau gofal iechyd sylfaenol a hamdden cymunedol ar gyfer preswylwyr; a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth drwy alluogi gwelliannau i gynefinoedd; a bydd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddefnyddio arwyddion dwyieithog a darparu gwybodaeth ddwyieithog ar gyfer y tenantiaid.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Mae tîm Caffael adran y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor wedi cael eu cynnwys drwy gydol yr ymarfer tendro.

8.2. Roedd Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn yn cefnogi'r egwyddor o ailddatblygu'r safle ar gyfer tai cymdeithasol gydag unedau masnachol ar y llawr gwaelod yn eu cyfarfod ar 12 Chwefror 2019.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Ariennir y prosiect yn llawn trwy'r Cynllun Busnes Stoc Tai a chymeradwywyd y prosiect gan y Cabinet ar 21 Medi 2021. Mae canlyniadau'r tendr yn glir ar sail pris ac ansawdd a chefnogir yr argymhellion yn llawn.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risgiau sy'n weddill o ran cyflawni'r cynllun yw gwaith nas rhagwelir, y contractwr yn mynd yn fethdalwyr, rheoli gwariant, ansawdd a manylion, iechyd a diogelwch y safle ac oedi oherwydd Covid-19. Mae'r rhain eisoes wedi'u lliniaru drwy wahodd cynigion ar gyfer adeiladu cynllun sydd â dyluniad technegol eisoes wedi'i gwblhau ac ymgymryd â gwiriadau ariannol ar y cynigwyr, a byddant yn parhau i gael eu lliniaru drwy reolaeth barhaus y contract gan dîm Dylunio ac Adeiladu'r Cyngor.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad?**

11.1 Mae Adran 9 Deddf Tai Lleol 1985 yn rhoi pŵer i awdurdodau tai lleol ddarparu cartrefi drwy adeiladu tai, trawsnewid adeiladau yn dai, neu drwy ennill tai.